Cwynion ac apeliadau i'r Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau

Rydym yn ystyried cwyn yn un lle nad ydych yn fodlon ar y fwrsariaeth sydd ar gael neu ein hymateb i'ch ymholiad neu wasanaethau, a'ch bod am i ni ddatrys y broblem. Ystyrir apêl yn gais i ail-werthuso penderfyniad a wnaed am eich asesiad cais am fwrsariaeth.

Gwneud cwyn

Os teimlwch eich bod wedi cael eich gwrthod yn annheg o gyfle i wneud cais am fwrsariaeth, yna dilynwch y ddolen i weithdrefn gwyno Gofal Cymdeithasol Cymru:

- https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/beth-rydym-yn-ei-wneud?

Apeliadau

Mae apêl yn gais ffurfiol i adolygu ein hasesiad o'ch cais gwreiddiol am Fwrsariaeth, eich cais am Grantiau a Lwfansau a Asesir yn ôl Incwm (IAGA) neu unrhyw faes arall sy'n dod o dan y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol. Dylai apêl ymwneud â phenderfyniadau neu gamau gweithredu sy’n seiliedig ar sut rydym yn dehongli’r cynllun.

Ym mhob achos arall, dylech ddilyn y broses gwyno.

Canllawiau ar sut i apelio i Ofal Cymdeithasol Cymru

Beth yw apêl?

Byddwn bob amser yn asesu eich cais am fwrsariaeth yn deg ar sail y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen gais am fwrsariaeth. Bydd yr asesiad yn dilyn y rheolau a nodir yn y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol sy'n diffinio pwy all gael bwrsariaethau myfyrwyr a faint maent yn ei dderbyn. Weithiau efallai y byddwch yn meddwl nad ydym wedi asesu eich cais am fwrsariaeth myfyriwr yn unol â'r Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol. Yn yr achos hwn gallwch apelio yn erbyn y penderfyniadau a wnaethom. Mae apêl yn gais ffurfiol gennych chi i'r Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau i adolygu'r penderfyniadau a wnaed ynghylch eich cymhwysedd i dderbyn y fwrsariaeth neu elfennau amrywiol ohoni.

Gwybodaeth i'w chynnwys yn eich apêl

Manylion y dyfarniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn, a pham yr ydych yn ystyried bod ein penderfyniad yn anghywir. Dylech hefyd amgáu unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'ch achos.

Sut i apelio

Os hoffech apelio yn erbyn penderfyniad neu anghytuno â sut rydym wedi cyfrifo eich cyllid, gallwch gyflwyno apêl at Uwch Swyddog Ariannu Myfyrwyr a Grantiau:

- Anfonwch e-bost atom at ariannumyfyrwyragrantiau@gofalcymdeithasol.cymru

- Ysgrifennwch atom:

Tîm Ariannu Myfyrwyr a Grantiau

Gofal Cymdeithasol Cymru

Tŷ Southgate

Stryd Wood

Caerdydd

CF10 1EW

Beth sy'n digwydd nesaf?

O fewn 5 diwrnod gwaith – byddwn yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi derbyn eich apêl.

O fewn 20 diwrnod gwaith – byddwn yn anfon ymateb llawn atoch i roi gwybod i chi beth yw ein penderfyniad. Os bydd oedi, byddwn yn rhoi gwybod i chi, neu os bydd angen rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth arnoch, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Byddwn yn aros nes bod gennym bopeth sydd ei angen arnom cyn i ni roi gwybod i chi beth yw ein penderfyniad.

Beth os nad ydw i'n hapus â'r ymateb a gaf?

Bydd adolygiad, a gynhelir gan y Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol yn ymchwilio i weld a oedd penderfyniad gwreiddiol yr Uwch Swyddog Ariannu Myfyrwyr a Grantiau yn anghywir neu na chynhaliwyd yr apêl ddilynol yn gywir, neu nad oedd ei gasgliadau'n gywir. Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol gallwch ofyn i Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru adolygu'r penderfyniad ymhellach a bydd ei benderfyniad yn dod â'r broses apelio i ben.

Os byddwch yn dal yn anfodlon ar ôl yr adolygiad terfynol hwn, efallai yr hoffech fynd â'ch cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Ombwdsmon yn: "annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac mae ganddo bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru" (a gymerwyd o https://www.ombwdsmon.cymru/amdanom-ni/).

Gallwch ysgrifennu atynt yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Cwynion

Os nad ydych yn hapus gyda'n cynnyrch neu'r gwasanaeth, dylech ddilyn ein proses gwyno.